



**Croeso i Wasanaeth
Cefnogi Taliadau
Uniongyrchol Cyngor
Sir y Fflint**

Rhif Ffôn: 01352 701100

E-bost: dpsupport@flintshire.gov.uk

Apwyntiadau:

Tŷ Dewi Sant (Ewlo)	Trwy Apwyntiad
Neuadd y Sir (Yr Wyddgrug)	Trwy Apwyntiad
Swyddfeydd y Cyngor y Fflint	Trwy Apwyntiad
Treffynnon yn Cysylltu	Trwy Apwyntiad

Gellir trefnu ymweliadau â'r cartref.

Cynnwys

Pwnc/Testun	Rhif Tudalen
Cynnwys	2
Dechrau arni	4
Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint	4
Pwy all gael Taliad Uniongyrchol	5
Rheoli Taliad Uniongyrchol	6
Defnyddio eich Taliad Uniongyrchol yn Greadigol	6
Sut i ddod o hyd i Gymhorthydd Personol	6
Prynu Cymorth gan Asiantaeth Gofal	7
Archwiliadau o'ch Taliadau Uniongyrchol	7
Camdrin	7
Canmoliaeth a Chwynion	7
Rhestr Templed Dogfennau	8
Ffynonellau o Wybodaeth	9

Dechrau arni

- Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i ddeall sut allwch chi ddefnyddio eich taliadau uniongyrchol i ddiwallu eich anghenion penodol. Mae'n egluro eich dewisiadau, eich cyfrifoldebau a'r gefnogaeth sydd ar gael i'ch helpu i sefydlu, rheoli a chynnal eich taliadau uniongyrchol.
- **Taliadau Uniongyrchol** yw arian gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint sydd ar gael i chi i drefnu cefnogaeth ac atebion sy'n eich helpu chi i ddiwallu eich anghenion, cyflawni eich canlyniadau cytunedig a gwella'r ffordd rydych yn byw eich bywyd.
- Gall Taliadau Uniongyrchol gynnig hyblygrwydd, dewis a rheolaeth well yn hytrach na'r gefnogaeth sy'n cael ei drefnu gan yr awdurdod lleol, er enghraifft efallai eich bod eisiau cyflogi eich Cymhorthydd Personol eich hun, i ddarparu cefnogaeth i chi ar yr adegau rydych chi eu hangen. Neu fe allwch benderfynu eich bod am ddefnyddio'r arian i brynu cymorth gan asiantaeth gofal neu ddod o hyd i fathau eraill o gefnogaeth seibiant a gall yr awdurdod lleol drefnu hyn ar eich cyfer. Ychydig iawn o gyfyngiadau sydd i'r mathau o atebion y gallwch eu hariannu. Fodd bynnag, rhaid i chi sicrhau eich bod yn gwario'r arian ar bethau sydd wedi'u cytuno gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint.
- Cyhyd a bod yr atebion yn ddiogel ac yn gyfreithiol, gellir defnyddio'r Taliadau Uniongyrchol mewn amrywiaeth o ffyrdd creadigol ac arloesol. Y peth pwysicaf yw eich bod yn gallu diwallu eich anghenion asesedig mewn ffyrdd yr ydych chi'n eu dewis, gan eich helpu i fynd ymlaen a byw eich bywyd.
- Mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddyletswyddau deddfwriaethol i ddarparu taliadau uniongyrchol a'ch cefnogi i'w rheoli. Disgrifir y rhain o fewn y Cod Ymarfer canlynol:

<http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt4en.pdf>

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol mewnol. Pwrpas y gwasanaeth yw gweithio gyda phobl sy'n derbyn taliad uniongyrchol i'w helpu i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a'r hyder i reoli eu Taliadau Uniongyrchol a'u cyfrifoldebau fel cyflogwyr yn effeithiol. Rydym eisiau i chi gael y canlyniadau gorau bosibl o'r arian sydd ar gael.

Gyda'r wybodaeth berthnasol, gall bobl sy'n derbyn Taliad Uniongyrchol reoli eu cyfrifoldebau gydag ychydig iawn o gyfranogiad gan y gwasanaeth cefnogi, efallai fydd rhai pobl angen ychydig iawn o gefnogaeth, neu gefnogaeth ar amser cyfyngedig a bydd rhai pobl angen cefnogaeth a sicrwydd parhaus.

Byddwn yn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarparwn i chi yn gymesur â'ch anghenion a gallu, ond byddwn bob amser yn eich annog a'ch cefnogi chi i hunan-reoli fel y bo'n briodol. Rhai o'r pethau allweddol mae'r gwasanaeth yn ceisio eu gwneud yw:

- Cysylltu â chi o fewn 2 ddiwrnod gwaith i dderbyn eich atgyfeiriad i'r gwasanaeth.
- Trefnu apwyntiad dechreuol gyda Swyddog Cefnogi Taliadau Uniongyrchol hyfforddedig, un ai yn un o Swyddfeydd Cyngor Sir y Fflint, neu os yw'n briodol, ymweliad yn y cartref.
- Eich darparu gyda gwybodaeth hygyrch am daliadau uniongyrchol.
- Eich helpu i ystyried sut fyddwch yn defnyddio eich taliad uniongyrchol i gael u budd mwyaf o'r arian.
- Datblygu cytundeb cefnogi gyda chi sy'n egluro sut fyddwn yn eich cefnogi chi. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu, cyflogaeth, rheoli arian ac adolygu sut mae pethau'n mynd.
- Eich helpu i ddeall sut u ddefnyddio cerdyn talu ymlaen llaw.
- Eich cefnogi i gofrestru gyda CThEM fel cyflogwr.
- Darparu gwybodaeth, a chymorth priodol gyda recriwtio Cymorthyddion Personol a bod yn gyflogwr.
- Cwblhau Gwiriad a Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda'ch Cymhorthydd Personol.
- Eich cefnogi i drefnu yswiriant priodol.
- Darparu templedi ar gyfer y broses recriwtio a'ch cefnogi i gwblhau'r rhain lle bo angen.
- Darparu lle diogel i gyfweld.
- Darparu gwybodaeth o ran lle i gael mynediad at arbenigwyr cyfraith cyflogaeth a gwasanaethau cyfryngu.
- Gwybodaeth o ran lle i ddod o hyd i, a sut i ariannu hyfforddi eich Cymhorthydd Personol.
- Eich cefnogi chi i gael mynediad at eiriolaeth a gwasanaethau eraill a all gynorthwyo gyda datrys gwrthdaro.
- Eich atgyfeirio i ffynonellau ehangach o gefnogaeth i ddiwallu eich anghenion lle bo'n briodol.

Pwy all gael Taliad Uniongyrchol?

Os cewch eich asesu gydag anghenion gofal a chymorth ac yn gymwys am gymorth ariannol gan yr awdurdod lleol, gallwch wneud cais am daliad uniongyrchol. Golyga

hyn y gallwch dderbyn y gyllideb yn uniongyrchol a threfnu sut i ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth eich hun.

Os ydych eisoes yn derbyn gofal a chymorth a reolir gan y cyngor, gallwch wneud cais i symud i daliad uniongyrchol.

Gall ofalwyr hefyd dderbyn taliad uniongyrchol.

Nid yw dewis trefnu eich gofal a chymorth eich hun trwy daliad uniongyrchol yn golygu bod rhaid i chi wneud popeth eich hun. Bydd y Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol yn eich cefnogi i gael y canlyniadau gorau o'ch arian.

Rheoli Taliad Uniongyrchol

Pan fyddwch yn dechrau defnyddio taliadau uniongyrchol byddwch angen gwybod sut fyddwch yn derbyn eich arian, gwneud taliadau ar gyfer y gwasanaethau yr ydych yn eu defnyddio, talu eich Cymhorthydd(ion) Personol a thalu unrhyw gostau cysylltiedig megis cyflogau neu filiau CThEM.

Bydd y gwasanaeth cefnogi taliad uniongyrchol yn egluro'r dewisiadau mewn manylder a'ch cynorthwyo i sefydlu trefniadau, felly peidiwch â phoeni.

Cyfrif Taliadau Uniongyrchol

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn gweithio gyda chwmni o'r enw 'Prepaid Financial Services' (PFS) er mwyn darparu system cyfrif hawdd ei ddefnyddio ar gyfer rheoli taliadau uniongyrchol. Caiff y cyfrif ei gyflwyno gan CSFf a byddwch yn ei ddefnyddio mewn modd debyg i gyfrif banc i dalu am eich Cymhorthydd Personol, Asiantaeth Gofal neu unrhyw dreuliau cytunedig eraill mewn cysylltiad â'ch anghenion gofal a chymorth.

Un o fanteision pobl yn defnyddio'r system yw nad oes angen darparu gwybodaeth fonitro ariannol gan fod y cyngor yn gallu gwirio sut cafodd yr arian ei ddefnyddio trwy'r cyfrif.

Defnyddio eich Taliad Uniongyrchol yn Greadigol

Rydym eisiau i chi gael y canlyniadau gorau bosibl o ddefnyddio eich taliadau uniongyrchol.

Er mwyn eich cynorthwyo i ddefnyddio'r taliadau uniongyrchol yn effeithiol byddwn yn gweithio gyda chi i archwilio ffyrdd y gallwch ddefnyddio eich arian yn wahanol. Bydd hyn bob amser i chi helpu chi i gyflawni'r canlyniadau cytunedig sy'n bwysig i chi. Gall hyn olygu prynu offer, neu dechnoleg a all eich helpu chi, trefnu gweithgaredd, cyfuno arian gyda phobl eraill, neu greu cyfle i ddatblygu sgiliau ac ati. Mae'r rhestr o bosibiliadau yn ddiidwedd.

Sut i ddod o hyd i Gymhorthydd Personol

Os ydych yn penderfynu cyflogi eich Cymhorthydd Personol eich hun, bydd y Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint yn eich cefnogi i ddod o hyd i

gymhorthydd personol sy'n eich gweddu chi. Efallai ein bod eisoes yn adnabod rhywun ar ein cronfa ddata a fydd yn addas a/neu gallwn eich helpu i recriwtio. Rydym hefyd yn defnyddio safleoedd swyddi ar-lein.

Efallai eich bod eisoes yn adnabod rhywun, fel aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog a hoffai fod yn Gymhorthydd Personol i chi. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau gallwch hyd yn oed ddewis cyflogi teulu rydych yn ymddiried ynddynt.

Prynu Cymorth gan Asiantaeth Gofal

I gael rhagor o wybodaeth ar Asiantaethau Gofal, ewch i wefan Comisiwn Ansawdd Gofal <https://arolygiaethgofal.cymru/> neu gallwch ofyn i'ch Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer rhestr o asiantaethau lleol sydd ar Fframwaith Gogledd Cymru. Gall y Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol eich helpu i drefnu eich cefnogaeth gyda darparwr o'ch dewis chi.

Gallwch hefyd ystyried siarad gydag asiantaethau nad ydynt ar Fframwaith Gogledd Cymru. Gallwn eich helpu i ofyn cwestiynau i sicrhau eu bod yn briodol ac yn gallu darparu'r gefnogaeth rydych ei angen.

Monitro sut mae eich Taliadau Uniongyrchol yn gweithio

Rhaid i daliad uniongyrchol gael ei ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n diwallu eich anghenion fel yr asesir yn y Cynllun Gofal a Chymorth a wnaethoch gytuno arno gyda Chyngor Sir y Fflint. Gofynnir i'r awdurdod lleol wirio eich bod yn gwario'r taliad uniongyrchol fel y bwriadwyd. Mae archwiliadau o'ch cyfrif yn gymesur a dylent leihau o ran cysondeb dros amser. Os oes unrhyw broblemau, bydd CSFf yn trafod hyn gyda chi ac yn trafod ffyrdd i'w datrys.

Fel ateb olaf, gall yr awdurdod lleol ystyried atal dros dro, neu derfynu eich taliad uniongyrchol a'ch symud chi i wasanaeth a reolir gan y cyngor neu sefydlu cyfrif banc wedi'i reoli. Byddwn hefyd yn trafod pethau gyda chi cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu.

Mae'n bwysig eich bod yn siarad â'r Gwasanaeth Cefnogi Taliad Uniongyrchol am unrhyw broblemau sydd gennych o ran rheoli eich taliad uniongyrchol. Rydym yma i'ch cynorthwyo a'ch cefnogi chi.

Cam-drin

Os ydych chi'n cael eich cam-drin neu eich esgeuluso gan eich Cymhorthydd Personol, neu unrhyw un arall, dylech adrodd am hyn ar unwaith. Ffoniwch Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar 01352 803444, ffoniwch yr Heddlu neu siaradwch gyda ni. **Mae gennym Bolisi Diogelu y gallwch ofyn amdano.**

Canmoliaeth a Chwynion

Nod Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint yw darparu gwasanaeth o safon uchel i ddefnyddwyr Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint. Rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu, felly rhowch wybod i ni beth ydym ni'n ei wneud yn dda a sut y gallwn wella.

Byddwn yn gwrando ar eich cwynion neu bryderon ac yn ceisio delio â hyn yn sydyn, yn agored, yn deg ac yn onest. Gallwch fynegi eich pryderon yn llawn ac ni chewch eich anffafrio.

Os ydych angen cymorth a/neu gefnogaeth i wneud cwyn neu fynegi pryderon, gallwch eich darparu ag Eiriolwr sy'n gweithio'n annibynnol o'r gwasanaeth rydych yn ei dderbyn.

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn neu fynegi pryderon am y Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol, yn y lle cyntaf gallwch gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Taliadau Uniongyrchol ar 01352 701101.

I gael copi llawn o Weithdrefn Gwyno CSFf, siaradwch ag un o'r tîm.

O dro i dro gallwn gysylltu â chi i ofyn am eich gwasanaeth rydych wedi'i dderbyn, er mwyn i ni gynnal safonau uchel, gwneud gwelliannau a sicrhau eich bod yn derbyn canlyniadau da.

Rhestr Templed/Dogfennau

Nodwch: Nid yw Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint yn gyflogwr ar felly rhai i unrhyw ddogfennau/templedi sydd wedi'u personoli ar eich cyfer chi gael eu gwirio yn drylwyr gennych chi fel cyflogwr. Nid yw Cyngor Sir y Fflint yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wybodaeth anghywir a gynhwysir o fewn unrhyw ddogfennau/templedi wedi'u personoli.

- Rhestr Asiantaeth Gofal
- Rhestr Cartref Gofal
- Templed Swydd-Ddisgrifiad
- Templed Ffurflen Gais
- Llythyr eglurhaol (Ffurflen Gais)
- Templed Hysbyseb Recriwtio
- Cwestiynau sampl cyfweliad
- Templed llythyr gwahoddiad i gyfweliad
- Templed cynnig swydd
- Templed gwrthod ymgeisydd
- Templed Cais am Eirida
- Templed Contract Cyflogaeth

- Templed Gweithdrefn Disgyblaeth
- Rhestr Wirio Iechyd a Diogelwch
- Cofnod Absenoldeb Gweithiwr
- Rhestr Wirio Sefydlu

Manylion Cyswllt

Tîm Cefnogi Taliadau Uniongyrchol
Rhif ffôn: 01352 701100
E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk
Cyfeiriad:
Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint
Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant
Ewlo CH5 3XT